## Ymarfer

# Ateb Cwestiwn

Yn Gymraeg mae mwy nag un ffordd o ateb ‘**Yes**’ a ‘**No**’

Mae’n rhaid bod yn ofalus ac edrych a gwrando ar y cwestiwn yn iawn!

Os yw cwestiwn yn cychwyn gyda **Wyt ti...**
mae’n rhaid ateb **ydw** neu **nac ydw**

Os yw cwestiwn yn cychwyn gyda **Oes...**
mae’n rhaid ateb **oes** neu **nac oes**

Os yw cwestiwn yn cychwyn gydag **Ai...**
mae’n rhaid ateb gydag **ia** neu **na / nage**

Er enghraifft:

| | |
|---|---|
| **Wyt ti**’n gallu jyglo? | **Ydw / Nac ydw** |
| **Ai** Lerpwl yw dy hoff dîm pêl-droed di? | **Ia / Na** |
| **Oes** eira ar y mynyddoedd heddiw? | **Oes / Nac oes** |

# Taflen waith:
# Ateb Cwestiwn

Rho gylch o amgylch yr ateb sy'n gywir i ti.

| | |
|---|---|
| Wyt ti'n gallu hedfan fel aderyn? | Ydw / Nac ydw |
| Wyt ti'n gallu jyglo? | Ydw / Nac ydw |
| Oes gen ti lygaid glas? | Oes / Nac oes |
| Ai Lerpwl yw dy hoff dîm pêl-droed di? | Ia / Na |
| Wyt ti'n chwarae rygbi? | Ydw / Nac ydw |
| Ai ym Mangor wyt ti'n byw? | Ia /Na |
| Oes eira ar y mynyddoedd heddiw? | Oes / Nac oes |
| Wyt ti'n edrych ymlaen at wyliau'r haf? | Ydw / Nac ydw |
| Ai glas yw lliw crys pêl-droed Everton? | Ia / Na |
| Wyt ti'n hoffi caws? | Ydw / Nac ydw |
| Oes gen ti gi neu gath? | Oes / Nac oes |
| Wyt ti'n mwynhau'r ysgol? | Ydw / Nac ydw |
| Ai Ysgol Tryfan ydi'r ysgol orau ym Mangor? | Ia / Na |
| Oes Apple Store ym Mangor? | Oes / Nac oes |
| Wyt ti'n gallu siarad mwy nag un iaith? | Ydw / Nac ydw |
| Ai ym mis Medi mae dy ben-blwydd? | Ia / Na |

## Taflen waith:

# Ateb Cwestiwn

Ysgrifenna'r ateb sy'n gywir i ti.

| | |
|---|---|
| Wyt ti'n gallu hedfan fel aderyn? | Nac ydw |
| Wyt ti'n gallu jyglo? | |
| Oes gen ti lygaid glas? | |
| Ai Lerpwl yw dy hoff dîm pêl-droed di? | |
| Wyt ti'n chwarae rygbi? | |
| Ai ym Mangor wyt ti'n byw? | |
| Oes eira ar y mynyddoedd heddiw? | |
| Wyt ti'n edrych ymlaen at wyliau'r haf? | |
| Ai glas yw lliw crys pêl-droed Everton? | |
| Wyt ti'n hoffi caws? | |
| Oes gen ti gi neu gath? | |
| Wyt ti'n mwynhau'r ysgol? | |
| Ai Ysgol Tryfan ydi'r ysgol orau ym Mangor? | |
| Oes Apple Store ym Mangor? | |
| Wyt ti'n gallu siarad mwy nag un iaith? | |
| Ai ym mis Medi mae dy ben-blwydd? | |